

S4C/

# S4C I BAWB
# EVERYONE'S **S4C**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG

BLWYDDYN ARIANNOL
HYD AT 31 MAWRTH 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.




## S4C

Mae S4C yn bodoli i ddangos ein byd drwy'r Gymraeg – gan wasanaethu ein cynulleidfaoedd gyda chynnwys sy'n diddanu, yn cyffroi ac yn adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth.

Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus mae gennym ddyletswydd i greu'r platfform a'r ecosystem i sbarduno'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i greu cynnwys uchelgeisiol ac unigryw sy'n apelio at bob oedran, cefndir a gallu ieithyddol.

Nod S4C yw bod yn gyrchfan ar gyfer cynnwys Cymraeg creadigol, gafaelgar a deniadol sydd ar gael i'w fwynhau ar amryw o lwyfannau yng Nghymru a thu hwnt.

## SAFONAU'R GYMRAEG

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â Safonau o ran y Gymraeg drwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016).

Bwriad y Safonau yw:

- ei gwneud yn eglur beth yw dyletswyddau sefydliadau o ran y Gymraeg;
- ei gwneud yn fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallent ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg, a
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.

Mae dyletswydd ar S4C i gydymffurfio gyda Safonau penodol mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae Hysbysiad Cydymffurfio S4C a manylion y Safonau sydd yn berthnasol iddi ar wefan S4C.

Nid yw'r Safonau yn cwmpasu pob agwedd o swyddogaethau S4C; mae darlledu wedi ei eithrio o gwmpas y Safonau felly nid oes disgwyl i S4C gydymffurfio â Safon os yw'r Safon honno, ac i'r graddau y mae'r Safon honno, yn ymwneud â darlledu.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adrodd ar y flwyddyn ariannol 2024/2025 yn gydnaws â gofynion y Safonau.

## S4C – MAE'R GYMRAEG YN PERTHYN I BAWB

Mae'r iaith Gymraeg yn greiddiol i fodolaeth S4C ac yn ganolbwynt allweddol i'w holl ddarpariaeth. Mae'r rôl hollbwysig y mae S4C yn ei chwarae o ran cynnal a hybu'r Gymraeg wrth galon ei diben cyhoeddus unigryw.

Elfen ganolog o waith S4C yw adlewyrchu holl gymuned ieithyddol y Gymraeg a chefnogi siaradwyr – lle bynnag maent ar eu taith iaith – drwy ein gwasanaethau. Rydym yn parhau i weithredu memorandwm cyd-ddealltwriaeth ag adran Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, sydd yn canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth addysg, siaradwyr newydd, trosglwyddo iaith, mynd â'r Gymraeg i'r byd, a chyfleoedd i weithio yn y Gymraeg.

Yn ystod 2024/2025, fe gryfhawyd ein hymrwymiad i'r iaith gyda lansiad brand "S4C i Bawb", gan groesawu pawb i fyd y Gymraeg, beth bynnag eu lefel o hyfedredd iaith.

Mae cynnwys S4C, sydd yn rhoi cyfle i glywed a mwynhau'r Gymraeg mewn cyd-destun cyfoes ar draws ystod o blatfformau, yn hanfodol i ffyniant yr iaith. Mae ein gwasanaethau plant, o Cyw – sydd yn cefnogi trosglwyddiad iaith – a Stwnsh, yn hanfodol i feithrin siaradwyr Cymraeg y dyfodol. Rydym hefyd wedi cynyddu argaeledd isdeitlau Cymraeg ar ein cynnwys plant er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau llythrennedd, yn ogystal â chynhyrchu adnoddau i gefnogi rhieni sy'n dysgu'r Gymraeg, i gyd-fynd â'n cyfres Cywion Bach.

Mae S4C yn cefnogi addysg drwy wneud ein cynnwys ar gael i ysgolion drwy lwyfan Hwb Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydweithio'n agos ag addysgwyr, CBAC ac Adnodd i adnabod cyfleoedd i gefnogi'r cwricwlwm cenedlaethol newydd, ac i hwyluso comisiynu adnoddau addysgol er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl o'n cynnwys.

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd wedi cryfhau ein partneriaethau ag ysgolion a cholegau ledled Cymru, gan eu cefnogi drwy ymweliadau a gweithdai.







Mae cefnogi dysgwyr a siaradwyr newydd Cymraeg yn flaenoriaeth i ni. Rydym wedi buddsoddi mewn cynnwys ffurf-fer ar gyfer dysgwyr ar ein platfformau digidol – cynnwys wedi'i deilwra, sy'n cryfhau sgiliau ieithyddol ac yn ysbrydoli hyder. Mae hyn yn cynnwys eitemau ar eirfa, gramadeg, a straeon sy'n adlewyrchu profiadau dysgwyr yng Nghymru ac ar draws y byd.

Ym mis Hydref 2024, buom yn cydweithio â BBC Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i nodi Wythnos Dathlu Dysgu, gan roi llwyfan i ddysgwyr a siaradwyr newydd yn ein cynnwys, yn ogystal â threfnu digwyddiadau i groesawu dysgwyr i'n canolfannau. Edrychwn ymlaen at adeiladu ar y sylfaen hon dros y flwyddyn i ddod.

Rydym hefyd am gefnogi'r rhai sy'n dysgu Cymraeg yn ein diwydiant – o flaen y camera a'r tu ôl iddo - drwy gydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r tîm yn Say Something in Welsh.

Ein nod yw adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth, ac mae hynny'n golygu adlewyrchu amrywiaeth gyfoethog ein hiaith hefyd. Rydym am sicrhau bod pob siaradwr yn gallu adnabod eu hunain yn ein cynnwys: eu llais, eu tafodiaith, a'u hiaith naturiol. Rydym hefyd yn disgwyl safonau ieithyddol uchel gan ein cydweithwyr, gan gynnig hyfforddiant a chanllawiau iaith clir i'n cynhyrchwyr, sgriptwyr a chyflwynwyr.

Rydym yn falch iawn o'n cyfraniad unigryw i'r Gymraeg, ac yn benderfynol o barhau i chwarae rhan yn ei thwf a'i ffyniant. Mae gennym gynlluniau ar y gweill i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach yn ystod y flwyddyn i ddod.



## S4C YN GWEITHREDU AR Y SAFONAU

Mae S4C yn cydymffurfio gyda'r Safonau sydd wedi eu gosod arni ac wedi parhau i'w gweithredu yn ystod y flwyddyn.

Mae gwybodaeth am y Safonau sydd yn berthnasol inni ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan ac ar ein mewnrwyd, ble mae adran benodol i staff gael manylion am y Safonau a'u gofynion.

Mae gan S4C bolisi mewnol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, sydd yn cefnogi defnyddio'r iaith wrth ohebu a chyfathrebu'n ddyddiol. Mae'r polisi hwn hefyd ar ein mewnrwyd.

Mae sesiwn hyfforddiant sydd yn atgoffa staff o ddyletswyddau S4C o dan y Safonau ar gael i'w wylio ar alw ar ein mewnrwyd hefyd, a chaiff ei gynnig i bob aelod newydd o staff wrth gynefino.

Mae llofnod e-bost pob aelod o staff yn nodi os ydyn nhw yn siarad Cymraeg ac yn egluro y gellir gohebu gyda nhw yn y Gymraeg. Mi fyddai rhywun sydd yn gohebu â ni yn y Gymraeg yn derbyn ateb yn y Gymraeg ac ni fydd oedi oherwydd hynny. Mae hyn hefyd yn wir am gysylltu â phobl drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

## CYDYMFFURFIAETH – SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU

Mae S4C yn cydymffurfio gyda'r Safonau cyflenwi gwasanaethau. Yn ystod y cyfnod dan sylw, mae S4C wedi parhau i weithredu'r Safonau ac i roi ystyriaeth flaenllaw i'r Gymraeg wrth ddarparu ei gwasanaeth i'r cyhoedd.

Mae pob aelod o staff sydd yn gweithio mewn rolau sydd yn wynebu'r cyhoedd – ein llinell gymorth Gwifren Gwylwyr – yn gwbl ddwyieithog.

Cyhoeddir dogfennau a ffurflenni at ddefnydd y cyhoedd gennym yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae pob tudalen ar ein gwefan ar gael yn Gymraeg ar yn gweithredu'n llawn.

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni dderbyniodd S4C gwyn gan aelod o'r cyhoedd a oedd yn berthnasol i'r Safonau cyflenwi gwasanaethau.

Fel rhan o fonitro rheolaidd Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn 2024/25, nodwyd dylid sicrhau bod datganiad Safon 14 ("Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg") yn cael ei gynnwys ar ein gwefan yn y man priodol. Newidiwyd testun ar ein gwefan er mwyn cynnwys y datganiad hwnnw wrth hysbysebu rhif ffôn Gwifren Gwylwyr S4C.



## CYDYMFFURFIAETH – SAFONAU LLUNIO POLISI

Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o ethos a bodolaeth S4C ac yn ystyriaeth wrth inni lunio ein polisïau. Pan fyddwn yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, byddwn yn ystyried sgil effeithiau hynny ar y cyfleoedd i bobl, ac yn enwedig ein staff, i ddefnyddio'r Gymraeg, lle'n berthnasol.

O ran mabwysiadu a chymeradwyo polisïau, mae taflen benodol sydd yn nodi gofynion y Safonau wrth lunio polisi ynghlwm wrth y papurau a aiff gerbron Bwrdd S4C am gymeradwyaeth.

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni dderbyniodd S4C unrhyw gwynion am gydymffurfiaeth S4C gyda'r Safonau llunio polisi.

## CYDYMFFURFIAETH – SAFONAU GWEITHREDU

Mae defnydd o'r Gymraeg yn fewnol yn rhan bwysig o wead S4C fel sefydliad ac mae S4C wedi parhau i weithredu ei dyletswyddau o dan y Safonau gweithredu.

Rydym wedi yn cynnal ein cyfarfodydd staff yn ddwyieithog gyda'r opsiwn o gyfieithu ar y pryd i'r Saesneg ers sawl blwyddyn. Gyda'n polisi gweithio hybrid yn golygu bod rhai staff yn gweithio o gartref neu o wahanol leoliadau, rydym wedi parhau i sicrhau bod ein cyfarfodydd hybrid yn cynnig cyfieithu ar y pryd i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae cyfieithydd yn ymuno gyda'r cyfarfod a'r rhai sydd yn dymuno cael cyfieithiad i'r Saesneg wedyn yn dewis clywed ffrwd arall.

Mae S4C yn ymfalchïo ein bod yn cynnig y cyfle i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae ein prosesau yn cael eu gweinyddu i alluogi hyn. Rydym yn croesawu ceisiadau swydd gan siaradwyr Cymraeg o bob lefel a'r rheiny sydd eisiau dysgu. Rydym yn buddsoddi mewn hyfforddiant Cymraeg yn ôl y galw, ac yn cynnig cyfleoedd i staff sydd eisiau dysgu Cymraeg neu loywi eu hiaith.

Mae S4C yn hysbysebu a chyhoeddi swyddi lle mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol yn Gymraeg yn unig neu yn ddwyieithog. Pan nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, pennir categori ar gyfer rhugl der wrth hysbysebu'r swydd a gwneir hyn yn ddwyieithog. Prin iawn ydy'r achosion pan nad yw'r Gymraeg yn hanfodol, ac rydym wastad yn hysbysebu swyddi yn y Gymraeg.

Caiff y taflenni isod oll eu cyhoeddi yn y Gymraeg neu yn ddwyieithog:

- ffurflenni cais am swyddi;
- gwybodaeth am ein proses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi, a
- swydd-ddisgrifiadau.

Ers symud ein pencadlys i Ganolfan S4C yr Egin dros chwe blynedd yn ôl, rydym wedi hysbysebu a recriwtio nifer helaeth o swyddi sydd wedi'u lleoli yng Nghaerfyrddin gan gynnig ystod eang o gyfleoedd i weithio yn y Gymraeg. Mae swyddfeydd yn parhau i fod gan S4C yng Nghaerdydd ac yng Nghaernarfon hefyd. Tenantiaid ydym yn y swyddfeydd hyn.

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion am gydymffurfiaeth S4C gyda'r Safonau gweithredu.



## GWEITHLU S4C

Dyma fanylion ynghylch niferoedd staff oedd yn meddu ar sgiliau yn y Gymraeg yn S4C, a'r nifer sydd yn derbyn cyrsiau hyfforddi cyfrwng Gymraeg o fewn cyfnod yr adroddiad:

(a) Nifer y cyflogeion a weithiodd i S4C yn ystod y cyfnod dan sylw oedd yn meddu ar sgiliau yn y Gymraeg:

Cymraeg rhugl: 96
Yn dysgu Cymraeg: 8
Ddim yn siarad Cymraeg: 5

(b) Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennym ni yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn: 103

(c) Canran y staff fynychodd fersiwn Gymraeg o gwrs oedd yn cael ei gynnig hefyd yn Saesneg: 81.5%
Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 12 cwrs hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg.

(d) Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennym ni yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swydd sydd yn gofyn:

i. bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol: 19
ii. bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd: 0
iii. bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol: 3
iv. nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol: 0



## GORUCHWYLIO

Mae cynllun gweithredu'r Safonau'r Gymraeg ar gael ar fewnrwyd a gwefan S4C. Caiff holl egwyddorion y Safonau eu cyfathrebu i staff, gan gynnwys aelodau newydd, ac mae adran benodol yn cynghori ar y Safonau ar ein mewnrwyd.

Mae gan bob cyfarwyddiaeth yn S4C gyfrifoldeb cyffredinol am weithredu Safonau'r Gymraeg yn eu cyfarwyddiaeth eu hunain sydd yn berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys cadw cofnodion a monitro fel ein bod yn gallu adrodd yn flynyddol yn gydnaws â'r gofynion arnom. Mae'r Bwrdd yn cael eu diweddaru yn rheolaidd. Fel mater o arfer da, rydym yn adolygu'r cynllun gweithredu.

# CYSYLLTU GYDAG S4C

Mae S4C wastad yn falch i glywed barn ein gwylwyr.

Os ydych yn dymuno cyflwyno eich barn am ein rhaglenni neu os ydych eisiau gwybodaeth bellach, fe fyddem yn falch i glywed gennych.

Fe allwch gysylltu ag S4C yng Nghaerfyrddin, yng Nghaerdydd neu Gaernarfon, dros y ffôn, drwy e-bost, Whatsapp, y cyfryngau cymdeithasol, neu drwy lythyr.

| | |
|---|---|
| Gwefan | s4c.cymru |
| E-bost | s4c@s4c.wales |
| Gwifren | 0307 600 41 41 |

Canolfan S4C Yr Egin
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Swyddfa Caerdydd S4C
3 Y Sgwâr Canolog
Caerdydd
CF10 1FT

Swyddfa Caernarfon S4C
Doc Fictoria
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1TH

Mae croeso ichi gysylltu ag S4C yn y Gymraeg, ac os byddwch chi’n gwneud hynny byddwn yn ateb yn y Gymraeg ac ni fydd oedi oherwydd hynny.